




Union Connectivity Review

Adolygiad Cysylltedd yr Undeb Adroddiad Dros Dro – Mawrth 2021





Delweddau tudalen flaen

1. Gwasanaeth Caledonian MacBrayne yn gadael Tarbert, Ynys Harris
2. Awyrennau ym Maes Awyr Gatwick Llundain
3. Aber Afon Hafren a Phont Hafren, Cas-gwent, De Cymru
4. Gorsaf Reilffordd Great Victoria Street, Belfast, Gogledd Iwerddon

Mae'r Adolygiad wedi ymroi i ystyried anghenion pobl ddall a rhannol ddall o ran cael mynediad i'r ddogfen hon. Bydd y testun ar gael yn llawn ar gov.uk. Gellir lawrlwytho'r testun am ddim a gall unigolion neu sefydliadau ei gyfieithu i'w drosi'n fformatau hygyrch eraill. Os oes gennych anghenion eraill yn hyn o beth cysylltwch ag ysgrifenyddiaeth Adolygiad Cysylltedd yr Undeb.

UCR@dft.gov.uk

Adolygiad Cysylltedd yr Undeb

Yr Adran Drafnidiaeth
Great Minster House
33 Horseferry Road
Llundain SW1P 4DR
0300 330 3000

www.gov.uk/government/organisations/department-for-transport
Ymholiadau cyffredinol: forms.dft.gov.uk

OGL

© Hawlfraint y Goron 2021

Mae hawlfraint yn y trefniad teipograffyddol yn sefyll gyda'r Goron.

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos na deunydd trydydd parti) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Rhagair

Mae cysylltedd trafndiaeth yn allweddol i dwf economaidd, creu swyddi, adeiladu tai a chydlyniant cymdeithasol. Mae'r llywodraeth wedi cydnabod hyn gyda'i ymroddiadau i 'ailgodi'n gryfach' ac i'r agenda lefelu ar i fyny. Mae cais y Prif Weinidog i mi adolygu cysylltedd y Deyrnas Unedig yn gydnabyddiaeth bellach o natur allweddol cysylltedd trafndiaeth. Mae'n dda gennyf gyflwyno fy adroddiad dros dro.

Mae datganoli wedi bod yn ffafriol i drafndiaeth ble mae ei ddarpariaeth wedi ei ddatganoli; cadarnhaodd y Prif Weinidog hynny yn ei araith yn Amgueddfa Wyddoniaeth a Diwydiant Manceinion yng Ngorffennaf 2019. Ond dwi eisoes wedi casglu bod hynny hefyd wedi arwain at ddiffyg talu sylw i gysylltedd rhwng y pedair gwlad, oherwydd gwrthdaro mewn blaenoriaethau a chyllid cymhleth.

Mae lefelu am i fyny hefyd wedi dod a'r modd y blaenoriaethir cynigion buddsoddiad mewn trafndiaeth i'r amlwg. Mae'r adolygiad diweddar o'r Llyfr Gwyrdd yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar yr achos strategol dros fuddsoddiad, fel yn wir y dylai os yw gwell cysylltedd i gael ei ddarparu tu allan i'r clymdrefi mawr a Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Yn yr adolygiad hwn, byddaf yn edrych ar flaenoriaethau yn seiliedig ar yr achos strategol ehangach ar gyfer buddsoddiad; fel y mae gwaith y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ar y Cynllun Rheilffyrdd Integredig ar gyfer Canolbarth a Gogledd Lloegr. Byddaf yn datblygu meini prawf gwrthrychol ar gyfer asesu cynlluniau sy'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn. Bydd hyn yn ystyried sut gallai gwelliannau wella cysylltiadau yn yr Undeb, sut byddant yn darparu manteision economaidd, sut byddant yn effeithio ar yr amgylchedd, a sut byddant yn gwella ansawdd bywyd y bobl sy'n eu defnyddio.

Golyga gadael yr Undeb Ewropeaidd ein bod hefyd wedi gadael Rhwydwaith Traws Ewropeaidd yr UE ar gyfer Trafndiaeth, a gynlluniwyd i nodi llwybrau a nodau ar draws yr UE ble byddai cyllid gan yr UE yn creu twf, swyddi, tai a chydlyniant cymdeithasol ar draws yr UE. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Deyrnas Unedig wedi rhoi cyfartaledd o €447miliwn i mewn i'r CEF-T, mecanwaith ariannu trafndiaeth yr UE, gan dderbyn dim ond un degfed o'r swm hwnnw yn ôl.

Mae hyn yn creu cyfle i gael Rhwydwaith y Deyrnas Unedig yn lle hyn, gyda'r un amcanion, ond wedi ei deilwra i ymateb i anghenion y Deyrnas Unedig gan gynnwys yr agenda lefelu am i fyny, ac y gellid ei defnyddio i roi adnoddau i well cysylltedd rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig. Awgryma fy ymgynghoriad yn ystod camau cynnar y gwaith hwn gymeradwyaeth eang ar gyfer y cysyniad hwn, ar yr amod ei fod wedi ei gyllido, ac nad yw'r cyllid yn cael ei dynnu o gyllid cyfredol y gweinyddiaethau datganoledig. Fel cyllid blaenorol yr UE, byddai cyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at ffrydiau cyllid cyfredol, i alluogi cysylltedd gyda chapasiti uwch, cyflymach a mwy dibynadwy. Ac oherwydd mai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fyddai'n gwneud penderfyniadau'r Rhwydwaith, gyda'r disgwyliad gennyf y byddai'n gwneud hynny mewn ymgynghoriad gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, byddai'n cael ei bennu i ddelio'n uniongyrchol gydag anghenion penodol y Deyrnas Unedig.

'm gwaith hyd yma, mae rhai o'r pryderon allweddol a godwyd yn cynnwys y canlynol, er nad yw'n rhestr hollgynhwysol wrth reswm:

- Cysylltiadau capasiti cyflymach ac uwch ar gyfer teithwyr o HS2 i'r Alban a Gogledd Cymru, ac o ganlyniad gwella capasiti cludiant hefyd
- Capasiti uwch ac amserau teithio cyflymach i ac o'r Alban o Loegr a Chymru a Newcastle ar y rheilffordd (Prif Linell Reilffordd Arfordir Dwyrain Lloegr) a ffordd (A1)
- Capasiti uwch a chysylltiad cyflymach ar yr A75 o'r porthladd fferi yn Cairnryan i goridor yr M6 ar gyfer cludiant a theithwyr i ac o Ogledd Iwerddon
- Lleihau tagfeydd ar gyfer coridor yr M4 yn Ne Cymru, y gwnaeth Comisiwn Burns adrodd arno'n ddiweddar i Lywodraeth Cymru, a gwelliannau dilynol i brif linell De Cymru
- Gwella capasiti'r porthladd yng Nghaergybi, a chysylltiadau o Ynys Môn ac arfordir Gogledd Cymru i Lannau Mersi a Manceinion ar gyfer nwyddau a theithwyr
- Gwella capasiti porthladdoedd, capasiti ffyrdd a rheilffyrdd ac amserau teithio Dwyrain/Gorllewin ar draws Canolbarth a Gogledd Lloegr, ar gyfer teithwyr ac i wella capasiti nwyddau a chysylltiadau o Iwerddon, ac ymlaen i borthladdoedd Arfordir y Dwyrain ar gyfer allforion, yn dilyn Brexit.
- Cysylltiadau capasiti cyflymach ac uwch o Felfast i Ogledd-orllewin Gogledd Iwerddon, ac i Weriniaeth Iwerddon, ar gyfer teithwyr a nwyddau, a chysyllt gyda chynlluniau'r Weriniaeth ar gyfer datblygiadau rheilffyrdd
- Gwella cysylltiadau awyr i Loegr i ac o Ogledd Iwerddon a Gogledd yr Alban, yn cynnwys ond nid yn gyfan gwbl o ac i Heathrow Llundain, ar gyfer cysylltiadau byd-eang i deithwyr a nwyddau; gan gynnwys y gyfradd briodol o Ardoll Teithwyr Awyr ar gyfer teithiau nad ydynt yn realistig ar y rheilffordd
- Cysylltiadau i borthladdoedd rhydd pan fyddant yn cael eu cyhoeddi gan y llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig

Bydd pob un o'r rhain, a materion cysylltedd eraill a nodwyd yn ein gwaith pellach, yn cael eu hadolygu yn fy adroddiad terfynol.

Gofynnwyd i mi edrych ymlaen, at beth fydd yn wahanol o fewn yr 20/30 mlynedd nesaf, c hefyd i ystyried agenda amgylcheddol y Llywodraeth, felly bydd fy adolygiad pellach yn ystyried y ddau. Mae cyfleoedd o fewn trafndiaeth yn y Deyrnas Unedig i gyfrannu at darged y Deyrnas Unedig o fod yn garbon net-sero erbyn 2050.


Bydd hynny'n mynd yn benodol i deithiau awyr, ble hoffwn ystyried yn benodol os, ac i ba raddau, y gellir gwneud teithiau awyr domestig allweddol yn garbon niwtral.

Gofynnwyd yn benodol i mi hefyd am gyswllt sefydlog rhwng Gogledd Iwerddon a thir mawr Prydain. I wneud hyn rwyf wedi gofyn i ddau arbenigwr, yr Athro Douglas Oakervee, CBE, a'r Athro Gordon Masterton, OBE, i arwain darn o waith ar wahân, yn defnyddio ymgynghorwyr peirianeg, er mwyn asesu dichonoldeb cyswllt o'r fath, ac amlinelliad o'r gost ac amserlen ar gyfer y cyswllt a'r gwaith cysylltiedig fydd angen.

Mae gen i grŵp bychan o gynghorwyr sydd eisoes wedi cynorthwyo'n faterol gyda'r gwaith hwn, ac yr hoffwn ddiolch yn fawr iddynt. Dwi eisoes wedi cael y fantais o farnau amrywiaeth eang o randdeiliaid, a nifer o ymatebion ysgrifenedig i'r alwad am dystiolaeth, ac rwy'n werthfawrogol i bawb am yr amser ac ymdrech ofynnol. Dwi'n ddiolchgar i'r tîm bychan o swyddogion yn yr Adran Drafnidiaeth am eu gwaith cael ar yr Adolygiad, ynghyd â llawer o bethau eraill maent wedi ei wneud yn gysylltiedig i COVID-19 a Brexit. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i eraill mewn rhannau eraill o'r Llywodraeth, ac i'r ymgynghorwyr sy'n cyfrannu. Ond bydd y cyfrifoldeb ar gyfer yr adroddiad dros dro hwn ac, pan y'i cyflwynir, yr adroddiad terfynol yn yr haf, ar fy ysgwyddau fi, a fi yn unig.




Sir Peter Hendy CBE



Cynnwys

| | |
|--|----|
| Crynodeb Gweithredol | 7 |
| Cyflawni'r Adolygiad | 9 |
| Cefndir | 12 |
| Asesiad Trafnidiaeth Cychwynnol | 14 |
| Asesiad Economaidd Rhagarweiniol | 36 |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 44 |
| Methodoleg | 47 |
| Rhwydwaith Trafnidiaeth Strategol ar gyfer y Dyfodol i'r Deyrnas Unedig | 52 |
| Cyd-ddibyniaethau | 55 |
| Camau nesaf | 58 |
| Cysylltu â'r Adolygiad | 60 |



Crynodeb Gweithredol

Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i asesu cysylltedd trafndiaeth gyfredol o fewn a rhwng cenhedloedd y Deyrnas Unedig, ac i wneud argymhellion a fydd yn uchafu potensial economaidd ac yn gwella ansawdd bywyd.

Mae cysylltedd trafndiaeth yn ganolog i fywydau pobl. Mae rhwydweithiau trafndiaeth yn sicrhau bod archfarchnadoedd yn llawn, ac apwyntiadau gyda meddygon wedi eu cadw. Mae'n darparu cyfle i bobl weld eu hoff dîm pêl-droed yn chwarae, i fynychu cyfweiliad ar gyfer y swydd berffaith ac i ymweld â'u teuluoedd. Mae'n cadw pobl mewn cysylltiad â'i gilydd ac i'r byd ehangach.

Bydd Adolygiad Cysylltedd yr Undeb yn asesu cysylltiadau a rhwydweithiau trafndiaeth yn, a rhwng, Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yn ystyried sut gall ansawdd ac argaeledd trafndiaeth gefnogi twf economaidd, lefelu am i fyny a gwella ansawdd bywyd. Bydd yr Adolygiad yn darparu cyfres o argymhellion sylweddol sy'n ceisio delio ag anghydraddoldeb mewn cysylltedd a photensial economaidd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd yr Adolygiad yn ystyried effaith y pandemig COVID-19 sydd wedi amharu'n sylweddol ar weithgaredd economaidd a chymdeithasol a'r galw dilynol am deithio ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae'r Adroddiad Dros Dro hwn yn ystyried cysylltedd trafndiaeth gyfredol y Deyrnas Unedig ac yn dadansoddi yn ôl dull ar gyfer teithwyr a nwyddau. Mae hefyd yn darparu manylion yr effaith amgylcheddol o deithio rhwng gwledydd y Deyrnas Unedig.

Mae'n adolygu Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd ar gyfer Trafndiaeth (TEN-T) yr UE; ei ddulliau gweithredu, cyfraniadau'r Deyrnas Unedig i'r Cyfleuster Cysylltu Ewrop a'r cyllid a dderbyniwyd o hyn, ac i ba raddau y byddai nodau'r UE ar gyfer TEN-T yn berthnasol i rwydwaith debyg a gynlluniwyd yn ôl anghenion y Deyrnas Unedig.


Mae'r adroddiad dros dro hwn yn edrych yn gryno ar ddangosyddion economaidd fel cynnyrch domestig gros, cynhyrchiant, dwyster poblogaeth a diweithdra er mwyn creu darlun o'r sefyllfa economaidd gyfredol ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd rhagor o waith yn dod ar hyn.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i gyflawniad llwyddiannus yr Adolygiad hwn, ac mae cryn dipyn wedi digwydd trwy ymgysylltu uniongyrchol, byrddau crwn a Galwad am Dystiolaeth ffurfiol. Mae hyn wedi nodi nifer o themâu allweddol, gan gynnwys cydnabod pwysigrwydd cysylltedd trafndiaeth ac awydd i gynyddu buddsoddiad mewn seilwaith critigol strategol tu allan i Lundain a De-ddwyrain Lloegr.

Mae'r Adolygiad wedi datblygu dull pragmatig gyda thystiolaeth sylweddol i asesu anghenion trafndiaeth cyfredol ac i ystyried sut ddylai rhwydwaith y dyfodol edrych. Yn unol ag adolygiad diweddar Trysorlys Ei Mawrhydi o'r Llyfr Gwyrdd, mae'r dull hwn yn ceisio ystyried yn llawn yr achos strategol dros fuddsoddi mewn trafndiaeth, yn hytrach na dim ond cyflawni dadansoddiad cost-budd llwyr. Bydd hyn yn helpu sicrhau y bydd unrhyw fuddsoddiad mewn trafndiaeth yn deillio o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn alinio gydag ac yn cefnogi agenda strategol ehangach y Llywodraeth.

Argymhelliad allweddol a gododd o'r Adolygiad yw datblygiad posibl Rhwydwaith Trafndiaeth Strategol newydd i'r Deyrnas Unedig. Gallai hyn adeiladu ar y dull asesu o'r brig i lawr a ddefnyddiwyd i ddiffinio'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd ar gyfer Trafndiaeth a ddyfeisiwyd i gefnogi Marchnad Sengl Ewrop trwy wella cysylltedd a chau'r bylchau mewn rhwydweithiau trafndiaeth trawsffiniol cyfredol. Gallai datblygiad rhwydwaith gyfatebol yn y Deyrnas Unedig gefnogi gwell asesiad o lwybrau trafndiaeth a phenderfyniadau buddsoddi, gwella rheolaeth o'r llif o bobl a nwyddau rhwng gwledydd a gwella gweithio mewn partneriaeth rhwng llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig. Cafodd hyn cefnogaeth gref gan randdeiliaid, yn amodol i ddarparu cyllid atodol. Creda'r Adolygiad bod yna achos strategol cryf dros Rwydwaith Trafndiaeth Strategol newydd i'r Deyrnas Unedig, ac felly bydd yn cyflawni gwaith atodol i ddiffinio hyn gan roi mwy o fanylion yn yr adroddiad terfynol. Bydd yr adolygiad hefyd yn gweithio i ddiffinio sut fyddai rhwydwaith o'r fath yn edrych, a sut fyddai'n fanteisiol i holl wledydd y Deyrnas Unedig.

Wrth symud ymlaen, bydd yr Adolygiad yn parhau i asesu llinellau sylfaen trafndiaeth ac economaidd, cyflawni ymchwil, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac asesu'r ymatebion o'r Alwad am Dystiolaeth yn llawn. Bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried polisi ac i ddatblygu argymhellion gyda thystiolaeth gadarn sy'n ceisio gwella cysylltedd trafndiaeth a chefnogi twf economaidd a gwelliant mewn ansawdd bywyd ar gyfer pobl ar draws y Deyrnas Unedig.





Cyflawni'r Adolygiad

Er mwyn cyflawni'r Adolygiad hwn yn effeithiol, mae Syr Peter Hendy CBE wedi gweithio i sefydlu strwythur cymorth priodol. Mae hyn yn cynnwys panel ymgynghori o arbenigwyr annibynnol gyda phrofiad perthnasol mewn cynllunio trafndiaeth a datblygu strategaethau.

Mae Syr Peter Hendy CBE wedi bod yn Gadeirydd Network Rail ers Gorffennaf 2015, ac yn Gadeirydd London Legacy Development Corporation ers Gorffennaf 2017. Cyn hynny, roedd Syr Peter yn Gomisiynydd Transport for London ers 2006, wedi gwasanaethu ers 2001 fel Rheolwr Gyfarwyddwr Trafnidiaeth Arwyneb TfL. Fe arweiniodd weithrediad llwyddiannus trafndiaeth Llundain ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012.

Mae'n Llywydd Rhyngwladol y Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth ar gyfer 2019, yn gymrawd y Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant ac yn gymrawd Sefydliad y Peirianwyr Sifil. Cafodd ei urddo'n farchog yn Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd 2013, wedi ei wneud yn CBE yn 2006.

Panel Cyngtori



Yr Athro David Begg

Mae'r Athro David Begg yn Brif Weithredwr Portobello Partnership. Mae'n Aelod anweithredol o Fwrdd Heathrow Airport Holdings Ltd ac fe gadeiriodd Gomisiwn y Llywodraeth ar gyfer Trafnidiaeth Integredig a'r Comisiwn Cysylltedd Glasgow Annibynnol diweddar. Roedd yn aelod o fwrdd Transport for London ac yn Gadeirydd Tube Lines ac yn Gyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, a chyn hynny British Rail.



Neale Coleman CBE

Mae Neale Coleman wedi ei benodi'n Gomisiynydd ar gyfer y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol. Fe weithiodd gydag Awdurdod Llundain Fwyaf i arwain gwaith y Maer ar gais Gemau Olympaidd Llundain, cyflawni'r Gemau a'u hetifeddiaeth adfywiad, ac roedd yn Aelod o'r Bwrdd ar gyfer Awdurdod Cyflawni'r Gemau Olympaidd trwy gydol ei oes. Mae'n arbenigwr mewn adfywio trefol a chyfraniad posibl cynlluniau seilwaith trafndiaeth i dwf, swyddi a thai.



Michèle Dix CBE

Dechreuodd Michèle ei gyrfa yng Nghyngor Llundain Fwyaf (GLC) wedi cwblhau ei PhD mewn trafndiaeth. Treuliodd bymtheg mlynedd yn y sector preifat gyda Halcrow Fox gan ddod yn Gyfarwyddwr y Bwrdd ar gyfer trafndiaeth drefol. Ymunodd â Transport for London yn 2000 fel Gyfarwyddwr Taliadau Tagfeydd cyn dod yn Rheolwr Gyfarwyddwr Cynllunio a Rheolwr Gyfarwyddwr Crossrail 2. Mae Michèle yn athro gwadd yn UCL ac yn adnabyddus yn y Gymdeithas Ryngwladol Trafnidiaeth Gyhoeddus, UTIP, ble mae'n cadeirio'r pwyllgor sy'n hyrwyddo ymchwil i drafndiaeth gyhoeddus ac arferion gorau'n fyd eang.



Elaine Seagriff

Mae Elaine Seagriff yn Gyfarwyddwr Cynllunio Trafnidiaeth gyda Jacobs ac yn arwain eu tîm strategaethau a pholisïau trafndiaeth cenedlaethol i lunio datblygiad polisi strategol a strategaethau trafndiaeth mewn rhanbarthau ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Cyn ymuno â Jacobs yn 2017, bu Elaine yn Bennaeth Polisi a Strategaeth Trafnidiaeth ar gyfer Transport for London ac roedd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu Strategaeth Trafnidiaeth 20 mlynedd y Maer. Mae'n aelod o Gomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ac ar hyn o bryd yn arwain y Cynllun Strategol Diwydiant Cyfan ar gyfer rhwydwaith rheilffyrdd Prydain Fawr.

Cynghorwyr Cyswllt Sefydlog

Mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad' yn gofyn bod Syr Peter yn ystyried cysylltiadau trafndiaeth rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Rhan allweddol o'r ystyriaeth hon yw atblygiad posibl cyswllt sefydlog. Er mwyn darparu argymhellion effeithiol ar brosiect technegol o'r natur hon, mae Syr Peter wedi caffael gwasanaethau Doug Oakervee CBE a'r Athro Gordon Masterson, a fydd yn ystyried dichonoldeb, cost ac amserlen y cynnig penodol hwn.



Doug Oakervee CBE

Mae'r Athro Oakervee yn gyn Gadeirydd HS2 a Crossrail ac efo oedd 139fed Llywydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil. Roedd yn Brif Beiriannydd Rheilffordd Cludiad Cyhoeddus Hong Kong ac yn Gyfarwyddwr Prosiect ar gyfer Maes Awyr Rhyngwladol Hong Kong. Cyflawnodd adolygiad o HS2 a adroddodd i'r Prif Weinidog yn Ionawr 2020. Dyfarnwyd y CBE iddo yn 2010..



Yr Athror Gordon Masterson

Mae'r Athro Masterton yn gyn Is-Lywydd Jacobs Engineering, yn gyn Lywydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil a Sefydliad y Peirianwyr ac Adeiladwyr Llongau yn yr Alban, yn gyn Gadeirydd Cyngor y Diwydiant Adeiladu ac yn sylfaenydd a Chadeirydd presennol Oriel Anfarwolion Peirianneg yr Alban. Roedd yn gynrychiolydd prosiect Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Crossrail ac mae'n cadeirio'r Panel Sicrwydd Annibynnol ar gyfer y cyswllt rheilffordd gyflym iawn HS2. Mae'n Gadeirydd Seilwaith y Dyfodol ym Mhrifysgol Caeredin.

Ysgrifenyddiaeth

Er mwyn hwyluso gwaith dydd i ddydd yr Adolygiad, mae Syr Peter hefyd wedi galw ar yr Adran Drafndiaeth i ddarparu ysgrifenyddiaeth. Wedi ei lunio o staff yr Adran drafndiaeth, mae'r ysgrifenyddiaeth hon yn darparu cefnogaeth ymarferol i Syr Peter ac yn ei alluogi i ddarparu'r Adolygiad yn effeithiol. Mae Syr Peter wedi caffael gwasanaethau ymgynghorwyr allanol a hefyd wedi cyflogi Syr Malcolm McKibbin i ddarparu cefnogaeth i'r Adolygiad.

1 www.gov.uk/government/publications/union-connectivity-review-terms-of-reference

Cefndir

Mae hwn yn adroddiad dros dro i roi diweddariad ar gynnydd adolygiad annibynnol dan arweiniad Syr Peter Hendy CBE. Bydd argymhellion terfynol yn cael eu cyhoeddi yn haf 2021.

Lansiwyd yr Adolygiad hwn yn Hydref 2020 i ystyried cysylltedd trafndiaeth ar draws y Deyrnas Unedig ac i nodi cyfres o argymhellion a fydd yn cefnogi uchelgeisiau strategol y Llywodraeth.

Cwmpas

Mae'r llywodraeth wedi gofyn i Syr Peter gyflawni adolygiad manwl o sut all safon ac argaeledd seilwaith trafndiaeth ar draws y Deyrnas Unedig gefnogi twf economaidd ac ansawdd bywyd ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. Dylai'r gwaith yma gwmpasu cysylltedd trafndiaeth ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ffyrdd, rheilffyrdd ac awyr, ac ar draws Mor Iwerddon.

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i Syr Peter ystyried:

- Safon a dibynadwyedd cysylltiadau mawr ar draws y Deyrnas Unedig
- Galw tebygol presennol ac yn y dyfodol ar gyfer cysylltiadau trafndiaeth
- Effaith amgylcheddol dewisiadau polisi (yn cynnwys o ran newid hinsawdd)
- Gwaith presennol a gwblhawyd gan y llywodraeth ar gysylltedd ar draws y Deyrnas Unedig
- Gwaith ar draws dulliau teithio i adfer o'r pandemig COVID-19, yn cynnwys y Cynllun Adfer Hedfan
- pandemic, including the Aviation Recovery Plan

Bydd yr Adolygiad yn gwneud argymhellion o ran os a sut fyddai orau i wella cysylltedd trafndiaeth yn y tymor hwy, yn cynnwys sut i hybu cysylltiadau presennol. Bydd yr argymhellion hyn yn gyson gyda strategaeth gyllidol ehangach y Deyrnas Unedig, gan ddod â manteision arwyddocaol i naill ai twf economaidd neu ansawdd bywyd yn y Deyrnas Unedig, ac wedi ei ategu gan ddadansoddiad economaidd. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gyhoeddi.

Bydd yr Adolygiad yn ystyried cost, dichonoldeb a gwerth am arwain unrhyw argymhellion a wneir. Bydd hefyd yn ystyried trefniadau cyflawni perthnasol ac amserlenni yn ogystal ag ym mha drefn y dylid cyflwyno unrhyw brosiectau arfaethedig.

Wrth gyflawni'r adolygiad hwn, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Syr Peter ystyried angen tebygol am drafnidiaeth yn y dyfodol a datblygiadau technolegol yn y tymor hwy, a ddiffinnir gan y llywodraeth fel yr 20 i 30 mlynedd nesaf.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi gofyn i Syr Peter ymgynghori'n helaeth gydag asiantaethau perthnasol y llywodraeth, yn cynnwys yr Adran Drafnidiaeth, ei dimau moddol, Swyddfa'r Alban, Swyddfa Cymru, Swyddfa Gogledd Iwerddon a'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, ynghyd â gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol a'u comisiynau seilwaith, yn ogystal â gyda diwydiant, academyddion, arbenigwyr peirianeg a'r cyhoedd. Bydd yr Adolygiad yn darparu crynodeb o'r gweithgaredd ymgysylltu yma.

Ymrwymadau

Er mwyn darparu cyfres o argymhellion cryf gyda thystiolaeth gadarn, bydd yr Adolygiad yn ymroi i'r canlynol:

- Asesu galw cyfredol ac yn y dyfodol ar gyfer teithio rhwng gwledydd cyfansoddol y Deyrnas Unedig, yn cynnwys ystyriaeth lawn o effaith COVID-19 ac ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac asesu ymatebion o Alwad am Dystiolaeth manwl yn ceisio gwybodaeth ar batrymau teithio cyfredol, heriau, cyfleoedd a gwelliannau posibl eraill
- Ystyried effaith amgylcheddol unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad yn llawn, a sicrhau eu bod yn cefnogi ymrwymadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig
- Comisiynu ymchwil gymdeithasol i gael gwell dealltwriaeth o ddehongliad y cyhoedd o hwylustod a chost teithio ar draws y Deyrnas Unedig
- Ystyried costau a manteision datblygu rhwydwaith trafnidiaeth strategol ledled y Deyrnas Unedig
- Asesu hyfywedd, cost ac amserlen adeiladu cyswllt sefydlog rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr
- Datblygu dull methodoleg pragmatig ble gall yr Adolygiad asesu'r galw am wella cysylltedd a manteision unrhyw argymhellion posibl
- Ystyried prosiectau eraill sy'n mynd rhagddynt sydd ag elfen cysylltedd yr undeb yn llawn

Bydd Syr Peter yn cyhoeddi adroddiad terfynol yn yr haf 2021, yn sefydlu cyfres o argymhellion sy'n cefnogi uchelgais y Llywodraeth i leihau anghydraddoldeb a gwella ansawdd bywyd trwy wella cysylltedd trafnidiaeth o fewn a rhwng cenhedloedd y Deyrnas Unedig.

Asesiad Trafnidiaeth Cychwynnol

Mae'n allweddol i'r Adolygiad ddeall sut mae pobl a nwyddau'n symud ar draws y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, a sut gellir gwella hyn trwy hybu cysylltedd rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

Datblygu asesiad cychwynnol o gysylltedd trafniadaeth

Diffinnir cysylltedd fel i ba raddau mae pobl a busnesau wedi eu cysylltu i'w gilydd, i swyddi ac i nwyddau a gwasanaethau ac i ganolfannau economaidd mawr cyfredol ac arfaethedig. Mae cysylltedd rhagorol ar draws y Deyrnas Unedig yn allweddol ar gyfer hybu twf economaidd cynaliadwy, cytbwys ac sydd wedi ei ddosbarthu'n dda.

Mae'n allweddol bod argymhellion yr Adolygiad yn seiliedig ar sylfaen tystiolaeth glir a chadarn. Golyga hyn arddangos presenoldeb ac ehangder problemau cysylltedd, cyn ystyried unrhyw ddatrysiadau neu ymyraethau. Felly, mae'r asesiad cychwynnol hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar ddeall rhwydweithiau cyfredol a lefelau galw. Nid yw'n ceisio nodi problemau gyda chysylltedd na chyfeirio at ymyraethau posibl, nac ychwaith yn rhoi dyfarniad cynnar ar ddeilliannau neu argymhellion yr Adolygiad.

Bydd yr asesiad yn sefydlu'r canlynol:

- Trosolwg o rwydweithiau trafniadaeth strategol cyfredol yn y Deyrnas Unedig
- Crynodeb lefel uchel o gysylltedd trafniadaeth llinell sylfaen a'r galw o bob modd: ffordd, rheilffyrdd, morol ac awyr. Mae hyn hefyd yn sefydlu symudiadau nwyddau a chapasiti ar draws y Deyrnas Unedig
- Crynodeb o lefelau cyfredol allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig i dtrafnidiaeth

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r gwaith cychwynnol hyd yma. Mae hyn yn gipolwg o weithgaredd cyfredol ac mae asesiad pellach yn parhau. Bydd y gwaith pellach yma yn nodi'r cysylltiadau rhwng cysylltedd trafniadaeth cyfredol a llinellau sylfaen economaidd ac yn nodi meysydd ble gellid gwella cysylltedd trafniadaeth. Fe sefydlir hyn yr adroddiad terfynol yn yr haf 2021.

Trosolwg o gysylltiadau trafndiaeth yn y Deyrnas Unedig

Lloegr

Mae Prif Linell Arfordir Gorllewin ac Arfordir Dwyrain Lloegr yn darparu cysylltedd rheilffordd gogledd-de o Lundain i ganol yr Alban, gan alw mewn dinasoedd allweddol yng Nghanolbarth a Gogledd Lloegr. Mae Prif Linell Arfordir Gorllewin Lloegr yn arbennig o bwysig ar gyfer nwyddau. Bydd HS2, unwaith y bydd yn weithredol, yn darparu cyfleoedd i wella capasiti ac amserau teithio ar Brif Linell Arfordir Gorllewin Lloegr, a fydd yn fanteisiol i nifer fawr o lwybrau ar draws Prydain Fawr. Mae Prif Linell Great Western yn allweddol ar gyfer cysylltedd dwyrain-gorllewin i Dde Cymru a De-orllewin Lloegr.

Rheolir y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol gan Highways England i gynnal a gwella cysylltedd ffyrdd. Mae'r M25 yn gweld galw arwyddocaol o uwch nag unrhyw ffordd arall yn Lloegr, ac yn allweddol ar gyfer cysylltedd i'r de-ddwyrain ac ymlaen i Dover a phorthladdoedd eraill. Mae'r M6 a'r M1 yn goridorau allweddol ar gyfer cysylltedd gogledd-de, a dyma'r coridorau nwyddau ffordd a ddefnyddir fwyaf. Mae'r M4 dwyrain-gorllewin rhwng De Cymru a Llundain yn gwasanaethu nifer o darddiadau a chyrchfannau pwysig.

Fel y fwyaf o bedair cenedl y Deyrnas Unedig, mae yna deithio awyr arwyddocaol o fewn Lloegr. Mae meysydd awyr pwysig ar gyfer llif gogledd-de yn Lloegr yn cynnwys Heathrow, Manceinion a Newcastle. Mae llif dwyrain-gorllewin wedi ei grynhoi yn y de, gyda'r meysydd awyr mwyaf arwyddocaol yn Newquay, Caerwysg, Heathrow a Southend. Maes Awyr East Midlands yw'r mwyaf yn y Deyrnas Unedig o bell ffordd ar gyfer hediadau awyr domestig.

Mae gan Lloegr nifer o borthladdoedd mawr sy'n cysylltu i weddill yr Undeb, i Weriniaeth Iwerddon, ac i dir mawr Ewrop.



Yr Alban


Y rheilffordd yw'r prif ddull trafndiaeth dorfol ar draws y ffin rhwng Lloegr a'r Alban, gyda theithiau trên ar draws y ffin yn bennaf i neu o Glasgow a Chaeredin ar Brif Linellau Arfordir Gorllewin ac Arfordir Dwyrain Lloegr. Mae nifer fawr o nwyddau hefyd yn teithio ar reilffyrdd i ac o'r Alban ar Brif Linellau Arfordir Gorllewin ac Arfordir Dwyrain Lloegr, er mai'r cyntaf sy'n dominyddu.

Yr M6 yw'r unig gyswllt traffordd i'r Alban; mae'n derbyn cyfran uwch o deithiau nwyddau (27%) na'r cyfartaledd. Coridor ffordd pwysig arall yw'r A1 o Newcastle i Gaeredin, ond mae ganddi gyfran is o HGVs a chyfanswm llif traffig sylweddol is. I'r gogledd o Newcastle, mae'r ffordd yn unffrwd ble mae oedi yn uwch a chyflymder cyfartalog yn is nag adrannau eraill o'r A1 nad yw'n draffordd.

Mae cysylltedd awyr yn bwysig i'r Alban, o ystyried y pellteroedd cysylltiedig i gael mynediad i ddinasoedd allweddol mewn cenhedloedd eraill. Mae'r nifer o deithiau teithwyr ar draws y ffin a'r nifer o lwybrau sydd ar gael yn llawer mwy na'r rhai yng Ngogledd Iwerddon a Chymru. Mae gan feysydd awyr Glasgow, Caeredin, Inverness ac Aberdeen lif arwyddocaol iawn o deithwyr domestig. Mae hedfan hefyd yn allweddol ar gyfer cysylltu tir mawr yr Alban i'w hynysioedd amgylchynol (fel y mae'r fferïau), gyda nifer uchel o lwybrau sydd â galw isel (yn bennaf) yn sicrhau cysylltedd i bellteroedd eithaf y Deyrnas Unedig. O ran nwyddau, mae meysydd awyr Caeredin ac Aberdeen y trydydd a phedwerydd mwyaf o ran tunelledd nwyddau yn y drefn honno, ac mae Maes Awyr Glasgow hefyd yn y 10 uchaf.

Mae cysylltedd morol rhwng yr Alban a Gogledd Iwerddon yn allweddol ar gyfer nwyddau, nid yn unig rhwng y gwledydd hyn, ond hefyd ar gyfer nwyddau yn teithio trwy'r Alban rhwng Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r nwyddau hyn yn llifo trwy borth Cairnryan; felly mae cysylltedd ffordd i Stranraer ar arfordir y gorllewin o bwysigrwydd strategol allweddol, yn benodol yr A75 a'r A77 gyda'r ail yn arbennig o bwysig ac yn cario dwywaith cymaint o gerbydau nwyddau na'r cyntaf. Mae yna nifer o borthladdoedd mawr eraill y Deyrnas Unedig yn yr Alban, er nad oes yr un yn dod yn agos at borthladd Cairnryan o ran maint nwyddau domestig.

Mae yna hefyd lif arwyddocaol o deithwyr ar draws Môr Iwerddon rhwng Cairnryan (Stranraer) a Belfast, gyda llif llai i ac o Larne. Fel gyda hedfan, mae'r fferïau yn chwarae rôl bwysig wrth gysylltu pobl a nwyddau rhwng Tir Mawr yr Alban a'r ynysioedd cyfagos.



Cymru


Mae poblogaeth Cymru yn grynodedig iawn yn y de pellach a gogledd y wlad. Oherwydd daearyddiaeth, yn wahanol i'r gwledydd eraill, mae yna lif cymuno arwyddocaol ar draws y ffin i ac o Loegr. Mae swyddi ym Mryste a Chanolbarth Lloegr yn hygyrch o Gaerdydd a Chasnewydd yn y de, a swyddi yn Lerpwl, Stoke a Manceinion yn hygyrch o ogledd Cymru. Mae bron i bob un o'r teithiau cymudo hyn mewn car, ac mae hyn yn cyfrannu at broblemau tagfeydd ffordd yn ystod oriau brig, n arbennig ar yr M4 yn y de.

Gan fod yr ardaloedd gweithgaredd economaidd crynodedig yn y Gogledd a'r De, mae Prif Linell De Cymru a Llinell Arfordir Gogledd Cymru yn bwysig iawn ar gyfer cysylltedd rheilffyrdd, o fewn Cymru a dros y ffin yn Lloegr. Mae cyfyngiad ar nwyddau rheilffordd i ac o Gymru oherwydd y cyfyngiadau lled rheilffordd sy'n atal defnyddio wagenni nwyddau mwy i'r gorllewin o Didcot.

Caergybi yw'r unig borthladd mawr yn y Deyrnas Unedig (niferoedd cargo o 1 miliwn tonnau neu fwy yn flynyddol) yng Ngogledd Cymru. Mae croesiadau arwyddocaol oddi yno ar draws Môr Iwerddon, ac felly mae mynediad i ac o Gaergybi ar yr A55 yn ystyriaeth bwysig ar gyfer cysylltedd nwyddau. Mae yna nifer o borthladdoedd eraill mawr y Deyrnas Unedig wedi eu crynhoi ar hyd arfordir y de, sef Abergwaun, Aberdaugleddau, Abertawe, Port Talbot, Caerdydd a Chasnewydd. O'r rhain, Aberdaugleddau sydd â'r nifer fwyaf o nwyddau ar draws Môr Iwerddon. Mae'r M4 yn strategol bwysig ar gyfer mynediad i'r porthladdoedd hyn.

Mae teithiau ar draws y ffin i weddill y Deyrnas Unedig trwy hedfan yn fychan iawn mewn cymhariaeth â'r gwledydd eraill. Mae'r pellter i'r rhan fwyaf o leoliadau yn Lloegr yn rhy fach i hedfan fod yn ddull cystadleuol a gall llawer o boblogaeth Cymru gyrraedd meysydd awyr yn Lloegr sydd â chysylltiadau da. Er enghraifft, mae cyswllt da rhwng meysydd awyr Bryste a Manceinion i weddill yr Undeb, ac mae nifer o deithwyr o Gymru yn defnyddio'r llwybrau hyn i gyrraedd Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond mae maes awyr Caerdydd yn tyfu o ran pwysigrwydd. Mae nifer nwyddau trwy'r awyr hefyd yn fychan.





Gogledd Iwerddon

Gan fod Môr Iwerddon yn ei gwahanu o weddill y Deyrnas Unedig, mae llwybrau awyr a morol yn allweddol i gysylltedd Gogledd Iwerddon.

Mae teithiau hedfan gan deithwyr ar draws y ffin yn bennaf yn rhai gan deithwyr i ac o Felfast, gyda nifer o feysydd awyr Lloegr a'r Alban yn hygyrch o un neu'r ddwy o feysydd awyr y ddinas. Y daith rhwng Londonderry a Chaeredin yw'r llif mwyaf poblogaidd nad yw'n cychwyn yn Belfast. Maes Awyr Rhyngwladol Belfast yw'r ail faes awyr mwyaf yn y Deyrnas Unedig o ran tunelledd nwyddau.

Fel y trafodwyd ar gyfer yr Alban, mae teithiau fferïau yn bennaf rhwng Belfast a Cairnryan (Stranraer), gyda llif tebyg ond llai rhwng Larne a Cairnryan. Mae yna hefyd fferïau teithwyr rhwng Belfast a Lerpwl, ond dyma ble mae'r llif lleiaf o'r tri llwybr. Mae'r llwybrau nwyddau ar draws Môr Iwerddon yn debyg, ond mae yna hefyd lif pwysig rhwng Heysham yn Lloegr a Belfast, a rhwng Heysham a Warrenpoint ar dde-ddwyrain eithaf Gogledd Iwerddon. Mae porthladdoedd Belfast a Warrenpoint wedi gweld cynnydd nodedig mewn traffig nwyddau gyda gweddill y Deyrnas Unedig yn ystod y deng mlynedd diwethaf, tra bod Larne wedi gweld lleihad.

O fewn Gogledd Iwerddon, mae coridorau rheilffyrdd a ffordd yn cysylltu Belfast i setliadau mawr eraill Londonderry, Enniskillen a Newry. Y rhain yw ffocws Rhwydwaith Drafnidiaeth Strategol Gogledd Iwerddon.

O ystyried bod teithwyr a nwyddau yn teithio trwy Weriniaeth Iwerddon ar eu ffordd rhwng Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae cysylltedd gogledd-de rwy Iwerddon yn bwysig. Mae llwybrau trawsffiniol yn cynnwys yr M1 Gwyddelig sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir o Ddilyn i Newry, gan ymuno â'r A1 a pharhau i Felfast a'r A5 sy'n rhedeg i'r de o Derry trwy Strabane, yn ymuno â'r N2 Gwyddelig ar ei ffordd tuag at Monaghan a Dilyn.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Mae trafnidiaeth yn cyfrannu 28% o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr domestig y Deyrnas Unedig, sy'n gyfraniad mwy nag unrhyw sector arall. Mae'r allyriadau hyn wedi cynyddu yn ddiweddar, a ddim ond 3% yn is nag yn 1990².

Mae trafnidiaeth ffordd yn gyfrifol am fwyafrif sylweddol o'r allyriadau nwyon tŷ gwydr hyn, gyda 55% yn cael eu cynhyrchu gan geir. Cafwyd cynnydd arwyddocaol o faniau masnachol ac o hediadau rhyngwladol ers 1990.

2 assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/932122/decarbonising-transport-setting-the-challenge.pdf


Mae hedfan yn allyrru mwy o nwyon tŷ gwydr fesul milltir nag unrhyw ddull arall o drafnidiaeth. Bydd teithiwr yn mynd o Lundain i Gaeredin trwy hedfan yn arwain at 144kg o allyriadau nwyon tŷ gwydr, tra bydd yr un daith ar drên yn arwain at ddim ond 29kg o allyriadau. Fodd bynnag, byddai unigolyn yn gwneud y daith mewn car petrol yn achosi 129kg o allyriadau, er y byddai hyn yn lleihau wrth i'r nifer o bobl yn y cerbyd gynyddu, a byddai hefyd yn amrywio yn ddibynnol ar y math o gerbyd ac arddull y gyrru.

Ym Mehefin 2019, y Deyrnas Unedig oedd yr economi fawr gyntaf i basio cyfraith sero-net i gyfraith i derfynu ei gyfraniad i newid hinsawdd erbyn 2050. Bydd sero-net yn gofyn i bob sector o economi'r Deyrnas Unedig, yn cynnwys trafndiaeth, i ddarparu lleihad pellach arwyddocaol mewn allyriadau. Er bod yr Adran Drafnidiaeth ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd allyriadau trafndiaeth yn gostwng, bydd angen i'r Deyrnas Unedig fynd ymhellach ac yn gyflymach i gyflawni ei nodau newid hinsawdd.

Bydd datblygiad technolegau newydd ac arloesol yn cefnogi'r uchelgeisiau hyn, fel cerbydau trydan a thanwydd hedfan cynaliadwy.

Bydd argymhellion yr Adolygiad yn gyson gyda thargedau newid hinsawdd y Deyrnas Unedig.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl sector (MtCO₂e) 1990–2018



Asesiadau Cychwynnol Galw am Drafnidiaeth

Mae'r Adolygiad wedi cynnal asesiad cychwynnol o alw cyfredol am drafnidiaeth ar draws y Deyrnas Unedig. Fe ddadansoddir hyn yn ôl dull a cheir crynodeb isod ynghyd â gwybodaeth ategol. Dylid ystyried hyn i fod yn waith cychwynnol a byddwn yn cyflawni dadansoddiad pellach i gau'r bylchau gwybodaeth a manylu ar asesiadau cyfredol.

Hewlydd

Mae rheolaeth o'r rhwydwaith ffyrdd yn y Deyrnas Unedig yn fater sydd wedi ei ddatganoli a reolir gan Highways England, Transport Scotland, Llywodraeth Cymru (wedi ei reoli gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ac Asiant Cefnffyrdd De Cymru) a'r Adran Seilwaith yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r rhwydwaith ffyrdd yn allweddol bwysig i lif nwyddau a phobl ar draws y Deyrnas Unedig, gyda dros 365 biliwn o filltiroedd yn cael eu gyrru ar hyd ffyrdd Prydain Fawr yn 2019³. Gyrrwyd dros 62% o'r milltiroedd hyn ar Draffyrdd neu "ffyrdd A" er bod y ffyrdd hyn yn cyfateb i ddim ond 13% o gyfanswm hyd ffyrdd. Mae pwysigrwydd y rhwydwaith ffyrdd wedi tyfu dros gyfnod o amser gyda chynnydd o 12x mewn traffig cerbydau ers 1949.

Dengys data Cyfartaledd Traffig Blynyddol 24 Awr yn Ystod yr Wythnos (AAWT) fod galw am deithio ar y rhwydwaith ffyrdd yn uchel. Y cysylltiadau trawsffiniol gyda'r llif traffig mwyaf yw Croesfan Hafren rhwng Cymru a Lloegr a'r M6 sy'n delio â chyfanswm dyddiol cyfunol o dros 100,000 o gerbydau a 48,000 o gerbydau yn y drefn honno. Mae'r M6 yn arbennig o bwysig ar gyfer traffig nwyddau, gyda HGVs yn gyfrifol am dros chwarter yr holl lif. Mae'r M6 yn delio â bron i bum gwaith cymaint o draffig dyddiol â'r A1, sy'n debygol o fod oherwydd gwahaniaethau mewn safon/capasiti a lleoliadau daearyddol cymharol y coridorau hyn.

| Croesi ffiniau | Lleoliad | Cyfeiriad | AAWT 24 Awr | %HGV |
|-----------------|--------------------------|-----------|-------------|------|
| Yr Alban-Lloegr | M6 | Gog | 24,195 | 27% |
| Yr Alban-Lloegr | M6 | De | 24,137 | 28% |
| Yr Alban-Lloegr | A1 i'r gogledd o Berwick | Gog | 5,905 | 15% |
| Yr Alban-Lloegr | A1 i'r gogledd o Berwick | De | 6,151 | 16% |
| Cymru-Lloegr | Croesfan Hafren | Gog | 53,268 | 14% |
| Cymru-Lloegr | Croesfan Hafren | Dw | 54,4701 | 14% |


Notes: M48 EB average of Aug-19 to Mar-20 and M4 EB average of Aug-19 to Feb-20

³ assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/916749/road-traffic-estimates-in-great-britain-2019.pdf


Mae adborth gan randdeiliaid ac ymgylgoreion wedi nodi'r cysylltiadau ffyrdd canlynol fel rhai sydd o ddiddordeb i'r Adolygiad. Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysol.

- A1 rhwng Newcastle a Chaeredin
- A55 yng Ngogledd Cymru
- Llwybrau Trans-Pennine yn cynnwys yr A66 a'r A69
- A75 i Borthladd Cairnryan
- M4 i Dde-orllewin Cymru

Mae trafndiaeth ffordd yn cyfrif am 91% o'r holl allyriadau o'r sector trafndiaeth. Mae hyn wedi ei ysgogi'n bennaf gan ddefnydd o geir. Yn 2018 roedd y car cyfartalog yn allyrru 20% yn llai o allyriadau na cherbyd cyfartalog yn 1990. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y nifer o gerbydau ar y ffordd wedi gwrthbwysu'r lleihad hwn, gyda chyfanswm allyriadau yn gostwng o ddim ond 1% dros yr un cyfnod. Mae cynnydd yn y nifer o gerbydau HGV hefyd wedi cyfrannu at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol, gyda nwyddau ffordd yn atebol am 17% 'r holl allyriadau trafndiaeth ffordd. Mae nwyddau hefyd yn cael eu cludo gan faniau sy'n llunio 16% o holl allyriadau trafndiaeth y Deyrnas Unedig. Mae defnydd o'r cerbydau hyn wedi mwy na dyblu ers 1990. Mae bysus a choetsis hefyd yn gwneud cyfraniad bychan ond arwyddocaol i allyriadau trafndiaeth ffordd, er eu bod yn fwy effeithiol na cherbydau preifat gyda llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul person fesul milltir.



Rhwydwaith Cefnffyrdd y Deyrnas Unedig



- Porthladdoedd Morol Mawr y Deyrnas Unedig
- Meysydd Awyr Mawr
- Cefnffyrdd A
- Traffyrdd
- Ardaloedd Trefol Mawr

Ffynhonnell: Yr Adran Ddrafnidiaeth, Amodau Rhwydwaith ac Ystadegau Ddeoryddiaeth Cangen
 Map Googleidd Iwerddon weffil ddiol o Borth Data Agored OSNI
 © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021, Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100039241

Rheilffordd

Mae'r rheilffordd yn symudwr pobl allweddol ym Mhrydain Fawr, gan darddu o system reilffordd hynaf y byd. Mae galw ar gyfer defnydd o reilffyrdd yn uchel a bron wedi dyblu yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, gyda theithiau yn cynyddu o 97% i gyrraedd record o 1.8 biliwn o deithiau yn 2018/19. Mae hyn yn fwy o gynnydd nag unrhyw ddull arall o drafnidiaeth yn yr un cyfnod.

Y llinellau rheilffordd allweddol ar draws y ffiniau yw Prif Linell Arfordir Dwyrain Lloegr a Phrif Linell Arfordir Gorllewin Lloegr sy'n cysylltu Lloegr a'r Alban. Mae gan Gymru gysylltiadau uniongyrchol i Lundain a Birmingham o Gaerdydd ac Abertawe, tra bod Gogledd Cymru wedi ei gysylltu'n bennaf i Lerpwl a Manceinion, yn ogystal ag i Brif Linell Arfordir Gorllewin Lloegr.

Mae teithiau rhwng Lloegr a'r Alban a Chymru a Lloegr yn dominyddu teithiau ar draws ffiniau, gyda 9.8m a 9.4m o deithiau rheilffordd yn digwydd yn 18/19⁴ yn y drefn honno. Mae galw am deithiau rheilffordd rhwng Cymru a'r Alban yn gymharol isel gyda dim ond 41,000 o deithiau yn digwydd yn 18/19⁵.

Mae'r rheilffordd yn gynyddol bwysig ar gyfer symud nwyddau ar draws y Deyrnas Unedig; symudwyd 9% o'r holl nwyddau a symudwyd ym Mhrydain Fawr yn 2018 ar y rheilffyrdd. Mae un o bob pedwar cynhwysydd sy'n cyrraedd porthladdoedd môr wedi ei gludo'n fewndirol ar y rheilffyrdd⁶. Mae cludiant rheilffyrdd yn cynnwys cludiant rhyngfoddol (cynwysyddion llongau wedi eu cludo ar reilffyrdd) a llwyth trên (nwyddau wedi eu cludo ar gerbydau rheilffordd arbenigol). Mae terfynellau rheilffordd rhyngfoddol yn allweddol i symudiad nwyddau ar y rhwydwaith rheilffordd, gyda therfynellau porthladd a mewndirol wedi eu gwasgaru ar draws y Deyrnas Unedig, ond yn grynodedig yng Ngogledd-orllewin Lloegr, Llundain, De Cymru a môr Hafren, Canolbarth Lloegr, y Solent a rhanbarth Caeredin/Glasgow.

Ar hyn o bryd mae Network Rail yn gweithio i wella'r rhwydwaith cludiant strategol gyda nifer o brosiectau ar waith ar draws y Deyrnas Unedig i wella symudiad nwyddau ar y rheilffyrdd⁷.

4 dataportal.orr.gov.uk/media/1240/passenger-rail-usage-2018-19-q4.pdf

5 dataportal.orr.gov.uk/media/1742/regional-rail-usage-statistical-release-2018-19.pdf


6 www.rfg.org.uk/rail-freight/facts-figures/

7 www.networkrail.co.uk/wp-content/uploads/2019/03/Strategic-freight-network-enhancement-schemes.pdf

Mae adborth gan randdeiliaid ac ymgylgoreion wedi nodi'r cysylltiadau rheilffordd canlynol fel rhai sydd o ddiddordeb i'r Adolygiad:

- Uwchraddio Prif Linell Arfordir Gorllewin Lloegr
- Capasiti'r rheilffordd yn ardal Bryste – De Dd Cymru ac uwchraddio Prif Linell Arfordir y Dwyrain
- Capasiti ac amserau teithio HS2 i'r Alban
- Uwchraddio cysylltwyr cledrau rhwng Gogledd Cymru ac ardal Glannau Mersi / Manceinion

Mae'r rheilffordd yn ddull carbon isel o deithio gyda dim ond 1.4% o allyriadau trafndiaeth yn cael eu cynhyrchu gan symudiadau rheilffyrdd, er ei fod yn atebol am 10% o filltiroedd teithwyr. Mae'r rheilffordd yn parhau i fod yn fwy caredig i'r amgylchedd gyda chyflwyniad trenau newydd a thrydaneiddio cynyddol. Dyma'r dull mwyaf caredig i'r amgylchedd i symud nwyddau ac fe amcangyfrifir ei fod yn tynnu dros 7 miliwn o deithiau HGV oddi ar y ffordd pob blwyddyn.



Terfynellau Rheilffordd Rhyngfoddol




Sector rhyngfoddol

Lled llwytho:

- Lled llwytho W12
- Lled llwytho W10
- Lled llwytho W9, Llundain i Dwnel y Sianel
- Lled llwytho cyfandirol Cyflym Iawn I (UIC GB)
- Linellau eraill
- - - - - Llwybrau a argymhellir ar gyfer ailsefydlu

**Terfynellau rhyngfoddol
(mae'r lliw yn dynodi statws gweithredol):**

- Cynewidfeydd Rheilffordd Cludo Nwyddau Strategol
- Terfynellau rhyngfoddol mewn porthladdoedd
- Terfynellau rhyngfoddol mewnndiro eraill



Map SŏN wedi ei gynhyrchu gan Intermodalitiy
 © MAPS IN MINUTES™ 2020. Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Newffransis y Geron a hawl cronfa ddeua 2020
 Sylwer: mae'r safleoedd a ddangosir ar y map yn cynnwys safleoedd trydydd parti. Nid yw Network Rail yn cynhyr unrhyw warant i ran gallu safleoedd trydydd parti i gael eu datblygu neu weithredu.

Morwrol

Mae porthladdoedd y Deyrnas Unedig yn delio â symudiad rhyngwladol a domestig o nwyddau a theithwyr ar y môr, yn ogystal â chefnogi'r diwydiant ynni ar y môr. Mae porthladdoedd yn hanfodol i symudiad nwyddau a phobl i ac o'r Deyrnas Unedig a rhwng pwyntiau o fewn y Deyrnas Unedig. Yn 2019 deliodd porthladdoedd y Deyrnas Unedig gyda 486.1 miliwn tunnell o nwyddau⁸.

Mae Grimsby ac Immingham a phorthladdoedd ardal Llundain yn delio â'r nifer fwyaf o dunelledd yn flynyddol, tra bod Dover yn delio â'r nifer fwyaf o draffig rholio ymlaen/rholio i ffwrdd (Ro-Ro). Mae dros chwarter o holl niferoedd Ro-Ro y Deyrnas Unedig yn pasio trwy Dover pob blwyddyn. Mae porthladdoedd allweddol eraill yn cynnwys Southampton, Belfast, y Forth a Felixstowe.

O'r holl nwyddau a symudwyd trwy borthladdoedd y Deyrnas Unedig yn 2019 roed tua 19% wedi ei ddsbarthu fel domestig, h.y. roedd yn symud rhwng dau bwynt yn y Deyrnas Unedig neu wedi ei fwriadu ar gyfer lleoliad ar y môr ar gyfer y Deyrnas Unedig fel ffermydd gwynt. Mae'r rhan fwyaf o'r traffig domestig yma tua'r arfordir h.y. traffig sy'n cael ei gludo o amgylch yr arfordir o un porthladd i'r llall yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys gwasanaethau fferi domestig, gyda 73.3 miliwn tunnell yn cael ei symud yn 2019.

Delir â 97% o gludiant domestig mewn porthladdoedd "mawr". Y porthladdoedd sy'n delio â'r mwyafrif o gludiant domestig yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yw Lerpwl, Cairnryan, Aberdaugleddau a Belfast yn y drefn honno. Mae'r prif lwybr cludiant domestig rhwng Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda phorthladdoedd Lerpwl a Belfast yn allweddol i'r symudiad hwn.

| Categori | Parau Gwledydd (A-Y) | Nifer Llwybrau | Tunelledd (000s) |
|-------------------------|-----------------------------------|----------------|------------------|
| Traws Ranbarth | Lloegr-Gogledd Iwerddon | 65 | 9,320 |
| Rhanbarth Unigol | Lloegr-Lloegr | 94 | 8,305 |
| Traws Ranbarth | Lloegr-Yr Alban | 88 | 6,529 |
| Traws Ranbarth | Gogledd Iwerddon-Yr Alban | 17 | 6,092 |
| Traws Ranbarth | Lloegr-Cymru | 27 | 2,191 |
| Rhanbarth Unigol | Yr Alban-Yr Alban | 32 | 1,445 |
| Traws Ranbarth | Gogledd Iwerddon-Cymru | 12 | 1,371 |
| Rhanbarth Unigol | Cymru-Cymru | 1 | 812 |
| Rhanbarth Unigol | Gogledd Iwerddon-Gogledd Iwerddon | 1 | 460 |
| Traws Ranbarth | Yr Alban-Cymru | 6 | 274 |

⁸ assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/908558/port-freight-statistics-2019.pdf


Mae cludiant morol yn ddull caredig iawn i'r amgylchedd o drafnidiaeth ac yn hyd yn oed mwy effeithiol bellach. Gostyngodd Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr o longau domestig 30% rhwng 1990 a 2018 a bellach mae'n atebol am ddim ond 1.3% o'r holl allyriadau domestig.

Yn ogystal â thunelledd cludiant, mae symud pobl yn swyddogaeth allweddol i gysylltiadau trafndiaeth forol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried teithiau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.


Mae'r ddau lwybr gyda'r nifer fwyaf o deithwyr blynyddol yn Ynysoedd Prydain ar draws Môr Iwerddon rhwng Caergybi a Dulyn a rhwng Cairnryan a Belfast. Mae gan y ddau lwybr dros 1 miliwn o deithwyr y flwyddyn – 1.8 miliwn ac 1.3 miliwn yn y drefn honno – gan arddangos y ddibyniaeth sydd gan nifer fawr o bobl ar deithio morol rhwng Prydain Fawr ac ynys Iwerddon.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi nodi'r canlynol fel rhywbeth o ddiddordeb pellach i'r Adolygiad:

- Gwella cysylltiadau ffordd a rheilffordd i borthladdoedd e.e. Belfast a Lerpwl
- Uwchraddiad posibl i fflyd fferïau Arfordir y Gorllewin i gefnogi mwy o symudiadau a lleihad mewn allyriadau
- Gwella cysylltiadau traws gwlad rhwng porthladdoedd ar arfordiroedd y Dwyrain a'r Gorllewin
- Llwybr fferi newydd ar Fôr Iwerddon rhwng Warrenpoint a Chaergybi



Porthladdoedd mawr y Deyrnas Unedig* yn cynnwys cyfanswm tunelledd sy'n cael ei drin yn ôl math o gargo (2019)



* Deliodd pob porthladd sydd wedi ei farcio ar y map â dros 2 filiwn tunnell o nwyddau yn 2019.
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Yr Adran Drafnidiaeth 2020.

Hedfan

Gall teithio rhwng gwledydd y DU gynnwys pellteroedd hir – sy'n golygu bod hedfan yn ddull poblogaidd ar gyfer llawer o deithiau. Er gwaethaf hyn, mae teithio awyr domestig wedi gostwng dros y degawd diwethaf o 612,500 o symudiadau hedfan yn 2009 i 484,300 yn 2019⁹.

Mae hediadau ar draws ffin yr Alban a Lloegr yn dominyddu'r galw am deithio teithwyr awyr domestig, a Heathrow – Caeredin yw'r llwybr mwyaf poblogaidd. Mae'r llwybrau awyr rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr yn arbennig o hanfodol ar gyfer gallu a gwytnwch, o ystyried bod Môr Iwerddon yn atal llwybrau rheilffordd neu ffyrdd.

Nifer blynyddol teithwyr awyr rhwng gwledydd y DU (miloedd), 2019¹⁰

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Ynysoedd yr Alban |
|--------------------------|---------|----------|-------|------------------|-------------------|
